## Atodiad 6 – Cofnod o gyfarfodydd cyhoeddus a gynhaliwyd

Trefnwyd y cyfarfodydd cyhoeddus canlynol gan nodi manylion y newidiadau arfaethedig a rhoi’r cyfle i'r rhai sy'n mynychu i ofyn cwestiynau am y Ddarpariaeth Arbenigol ar gyfer Dysgwyr Cynradd ac Uwchradd ag Anghenion Iechyd a Lles Emosiynol a Darpariaeth Arbenigol ar gyfer Dysgwyr Cynradd ag Anghenion Dysgu Cymhleth a/neu Awtistiaeth.

*Gofynnwyd i fynychwyr gadarnhau eu presenoldeb ymlaen llaw. Lle nad oedd unrhyw geisiadau i ddod i'r cyfarfod, ni chynhaliwyd y cyfarfod.*

- Cyfarfod Ymgynghori Wyneb yn Wyneb, Y Llyfrgell Ganolog, Yr Ais – 11 Ionawr 2024
- Cyfarfod Ymgynghori Ar-lein, drwy Microsoft Teams (Cymraeg) – 15 Ionawr 2024
- Cyfarfod Ymgynghori Ar-lein, drwy Microsoft Teams (Saesneg) – 15 Ionawr 2024

Gwnaed trefniadau ar gyfer cyfarfod cyhoeddus wyneb yn wyneb yn nodi manylion y newidiadau arfaethedig a'r cyfle i ofyn cwestiynau trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.

Nid oedd unrhyw geisiadau i ddod i'r cyfarfod, ac ni chynhaliwyd y cyfarfod.

**Rhaglen Ysgolion**
**Darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol**
**Cyfarfod Cyhoeddus Ar-lein (Cymraeg)**
**15 Ionawr 2024 am 5:30pm**

Gwnaed trefniadau ar gyfer cyfarfod cyhoeddus ar-lein yn nodi manylion y newidiadau arfaethedig a'r cyfle i ofyn cwestiynau trwy gyfrwng y Gymraeg.

Nid oedd unrhyw geisiadau i ddod i'r cyfarfod, ac ni chynhaliwyd y cyfarfod.

**Yn bresennol:** Brett Andrewartha (CTY), Jennie Hughes (Cynhwysiant), Ceri Tanti (CTY), mynychwr cyfarfod.

*Noder: Nid trawsgrifiad yw'r canlynol, ond nodyn o'r cyfarfod a wnaed ar y pryd.*

**Cynhaliwyd y cyfarfod drwy Microsoft Teams**

**Croeso a Chyflwyniadau**

Croesawodd BA yr aelod o'r cyhoedd i'r cyfarfod a chyflwynodd swyddogion eu hunain.

Rhoddwyd cyflwyniad yn nodi manylion y newidiadau arfaethedig i ddarpariaeth arbenigol ar gyfer dysgwyr cynradd ac uwchradd ag anghenion dysgu ychwanegol:

- Cefndir
- Digonolrwydd lleoedd
- Digonolrwydd lleoedd – Darpariaeth Anghenion Dysgu Cymhleth ac Awtistiaeth
- Digonolrwydd lleoedd – Darpariaeth Anghenion Iechyd a Lles Emosiynol
- Beth sy'n cael ei gynnig ledled y ddinas?
- Darpariaeth Anghenion Dysgu Cymhleth a/neu Awtistiaeth presennol
- Darpariaeth Iechyd a Lles Emosiynol presennol
- Darpariaeth ADY Arbenigol Caerdydd 2023/24
- Twf diweddar o ran dysgwyr sy'n cael mynediad i ddarpariaeth arbenigol
- Twf a ragwelir o ran dysgwyr sy'n cael mynediad i ddarpariaeth arbenigol
- Beth yw Canolfan Adnoddau Arbenigol?
- Sut mae canolfan Anghenion Dysgu Cymhleth yn gweithredu?
- Sut mae Canolfan Anghenion Iechyd a Lles Emosiynol yn gweithredu?
- Manteision y cynigion
- Gwerthuso opsiynau
- Ystyriaethau eraill
- Beth sy'n digwydd nesaf?

**Cwestiynau ac ymateb**

**C: A allech chi amlinellu'r newidiadau a gynigir i Ysgol Gynradd Lakeside, lle cynigir disodli'r dosbarth lles presennol gan CAA?**

A: Nid yw'r ddarpariaeth yn Ysgol Gynradd Lakeside yn cael ei newid o ran nifer y plant, y math o ddarpariaeth neu'r ystod oedran. Mae'n ffurfioli'r dosbarth presennol, ac yn caniatáu i blant nad ydynt ar hyn o bryd yn mynychu Lakeside i gael eu lleoli yno.

**C: Ar hyn o bryd mae dosbarth Lakeside yn darparu ar gyfer plant y cyfnod sylfaen. A fydd plant CA2 yn gallu mynychu'r dosbarth yn y dyfodol?**

A: Yn ffurfiol, statws y CAA fyddai 4-11 oed ond ar hyn o bryd dim ond plant iau sy'n cael eu rhoi yn y dosbarth. Mae'r ALI yn trafod gyda'r ysgol gan fod posibilrwydd o ymestyn lleoliadau ar gyfer plant unigol a allai elwa o aros yn y dosbarth yn hytrach na symud.

**C: A fydd yna gyfleusterau eraill fel Canolfan Marion?**

A: Mae Canolfan Marion yn ysgol arbennig a fydd yn delio â lefel uwch o angen. Bydd y galw am leoedd yn cael ei adolygu'n barhaus a'r ddarpariaeth yn cael ei chyflwyno yn ôl y gofyn.

**C: A oes unrhyw gynigion ar gyfer anghenion dysgu ADY Ôl-16 yng Nghaerdydd?**

A: Gallai pob un o'n canolfannau uwchradd ac ysgolion arbennig gynnig darpariaeth ar gyfer dysgwyr ôl-16 gydag ADY. Mae'r awdurdod lleol yn gweithio gyda cholegau lleol sy'n gwella eu cynnig ôl-16 ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol. Rydym hefyd yn edrych ar lwybrau i mewn i waith.

**C: Mae Prifysgol Caerdydd yn ceisio helpu gyda chyrsiau pontio Awtistiaeth ar gyfer plant ADY. Unrhyw syniadau ar gyfer sectorau addysg uwch eraill?**

A: Mae ein holl ysgolion yn gweithio ar lwybrau i ddysgwyr sy'n gadael yr ysgol, felly fel rhan o hyn, byddant yn gweithio gyda chyrff eraill ar gynllunio pontio ond mae'r cyrsiau y mae prifysgolion yn eu cynnig y tu allan i'n cylch gwaith.

**C: A oes unrhyw systemau cymorth ar waith ar gyfer plant sydd â phryder cynyddol o ran mynychu unrhyw leoliad ysgol - e.e. ysgolion ar-lein?**

A: Nid oes gan yr Awdurdod Lleol ysgolion ar-lein er bod rhai disgyblion yn cael mynediad at ddysgu ar-lein. Ein nod yw cael dysgwyr yn ôl i'r ysgol cyn gynted â phosibl lle bo hynny'n bosibl. Mae ein Seicolegwyr Addysg yn cefnogi plant sydd â gorbryder. Mae gennym rywfaint o ddarpariaeth yn yr Uned Cyfeirio Disgyblion ar gyfer plant â gorbryder, ynghyd â rhai lleoedd mewn lleoliadau annibynnol.

**C: A oes unrhyw fwrsariaethau ar gael i blant fynychu unedau awtistiaeth ysgolion preifat - e.e. Kings Monkton?**

A: Na. Mae'r system fwrsariaeth o ariannu presenoldeb mewn ysgol breifat ar gael yn Lloegr ond yng Nghymru ni fyddai'r math hwn o gyllid yn cael ei ddarparu.

**C: A oes gan blant sy'n derbyn gofal unrhyw gymorth ychwanegol yn yr unedau hyn - e.e. seiliedig ar drawma ac ati?**

A: Mae llawer o'n hysgolion yn defnyddio arferion sy'n seiliedig ar drawma. Mae'r dull THRIVE a ddefnyddir mewn ysgolion yn debyg iawn. Darperir hyfforddiant a chymorth Cyfathrebu Cymdeithasol, Rheolaeth Emosiynol a Chymorth Trafodaethol (CCRhEChT). Mae llawer o ysgolion Caerdydd yn cynnal eu darpariaeth anogaeth eu hunain ac mae llawer hefyd yn cynnig cymorth Cynorthwy-ydd Cymorth Llythrennedd Emosiynol (CCLlE).

O ran plant sy'n derbyn gofal, mae gennym dîm sy'n cydlynu eu cefnogaeth, ac mae'r Awdurdod Lleol yn arwain ar eu Cynlluniau Datblygu Unigol.

Ni chafwyd cwestiynau pellach.

Diolchwyd i'r mynychwr am ymuno â'r cyfarfod. Rhoddwyd nodyn atgoffa bod yr ymgynghoriad yn cau ddydd Gwener 19 Ionawr. Gellir rhoi ymatebion i'r ymgynghoriad drwy'r wefan neu drwy e-bost i ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk.

Daeth y cyfarfod i ben.